Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD

# Ymyraethau COVID-19 mewn ysgolion a lleoliadau: trefniadau ar ddechrau tymor yr hydref 2021 i 2022

Cymorth i ysgolion ac awdurdodau lleol gynllunio ar gyfer y dull o ymdrin ag ymyriadau COVID o 1 Medi 2021.

Cyhoeddwyd gyntaf: 9 Gorffennaf 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 9 Gorffennaf 2021

Nod y nodyn cyngor hwn yw cefnogi ysgolion a lleoliadau ac awdurdodau lleol i gynllunio ar gyfer rhoi ymyraethau COVID ar waith o ddechrau blwyddyn academaidd 2021 i 2022, a dylid ei ddarllen ar y cyd **â'r canllawiau gweithredol diwygiedig ar gyfer ysgolion a lleoliadau o 1 Medi**.

Mae'r sefyllfa'n parhau i fod yn ansicr, ac efallai y bydd angen cyhoeddi diweddariadau pellach os bydd unrhyw ddatblygiadau sylweddol yn ystod cyfnod gwyliau'r haf. Yn yr amgylchiadau hyn, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ystyried y ffordd orau o roi'r amser sydd ei angen i chi wneud unrhyw addasiadau angenrheidiol i fesurau lliniaru ar ddechrau'r tymor (gan gynnwys

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/ymyraethau-covid-19-mewn-ysgolion-lleoliadau-trefniadau-ar-ddechrau-tymor-yr-hydref-2021-i-2022** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

unrhyw ychwanegiadau pe bai'r rhain yn cael eu barnu'n angenrheidiol ac yn gymesur i sicrhau diogelwch ar yr adeg honno).

Mae'r trefniadau ar ôl gwyliau'r haf yn adlewyrchu'r cynnydd sy'n parhau i gael ei wneud gan y rhaglen frechu. Erbyn diwedd mis Medi bydd pawb sy'n gweithio yn ein system addysg wedi cael cynnig y ddau frechiad, gan dyfu ein hamddiffynfeydd yn erbyn y feirws. Mae data sy'n dod i'r amlwg ar elfennau fel cyfnodau yn yr ysbyty a salwch difrifol hefyd yn awgrymu y gallwn symud y tu hwnt i'r dull cyfyng iawn o ddelio â COVID hyd yma erbyn i ysgolion ddychwelyd ar ôl gwyliau'r haf.

Yn y cyd-destun hwn, dyma'r prif newidiadau y dylai ysgolion a lleoliadau eu hystyried wrth gynllunio gweithrediadau ar ôl gwyliau ysgol.

- Bydd profion yn parhau i chwarae rhan wrth gefnogi ysgolion a lleoliadau yn yr hydref i adnabod ac ynysu unigolion heintiedig yn gyflym. Dylid annog staff ysgol a dysgwyr oed uwchradd i ddefnyddio Profion Llif Unffordd ychydig cyn dychwelyd i'r ysgol. Gellir cael gafael ar brofion trwy sianeli cymunedol yn ystod yr amser hwn. Bydd cyfathrebu pellach ar hyn maes o law.
- O ddechrau'r tymor newydd ni fyddwn bellach yn argymell gwisgo gorchuddion wyneb yn yr ystafell ddosbarth ar gyfer staff neu ddysgwyr. Fodd bynnag, efallai bydd ysgolion a lleoliadau am annog iddynt gael eu defnyddio mewn ardaloedd lle mae'n debygol y bydd mwy o gymysgu cymdeithasol, megis mewn ardaloedd cymunedol. Dylai dysgwyr mewn ysgolion a lleoliadau uwchradd parhau i ddefnyddio gorchuddion wyneb ar gludiant ysgol penodedig. Fel rhan o broses asesu risg ysgol, gyda chefnogaeth swyddogion iechyd cyhoeddus, ac mewn trafodaeth ag awdurdodau lleol, bydd ysgolion a lleoliadau yn gallu penderfynu a yw gwisgo gorchuddion wyneb yn briodol yn unrhyw le ar safle'r ysgol ar sail amgylchiadau'r ysgol ei hun a chyd-destun lleol. Fodd bynnag, os yw unigolyn yn dymuno gwisgo gorchudd wyneb, ni ddylid atal hyn.
- Dylai ysgolion a lleoliadau ddychwelyd i'w hamseroedd sesiwn arferol ar

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/ymyraethau-covid-19-mewn-ysgolion-lleoliadau-trefniadau-ar-ddechrau-tymor-yr-hydref-2021-i-2022** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

gyfer y tymor newydd.

- Dylai ysgolion a lleoliadau gynllunio ar y sail na fydd gan grwpiau cyswllt rôl i'w chwarae mwyach ar ddechrau tymor yr hydref. Mae hyn yn gyson â'r dull a ddefnyddir mewn gofal plant. Bydd grwpiau cyswllt yn cael eu disodli gan ffocws cryfach ar olrhain cysylltiadau, yn unol â'r hyn sy'n digwydd gyda'r boblogaeth gyffredinol. Byddwn yn defnyddio ein system Profi, Olrhain, Diogelu er mwyn nodi cysylltiadau agos â dysgwyr sydd wedi profi'n bositif, ac mae'n bosib y bydd Profi, Olrhain, Diogelu yn cysylltu â'r ysgol neu'r lleoliad i ategu'r wybodaeth y maent eisoes wedi casglu gydag unrhyw wybodaeth bellach a allai fod ar gael. Ein disgwyliad o ysgolion a lleoliadau yw eu bod yn dilyn y cyngor penodol a gânt gan Profi, Olrhain, Diogelu ynghylch a oes angen i unigolion hunan-ynysu.
- Rhaid i gyfundrefnau glanhau fod yn gymesur ac yn unol ag unrhyw glefyd trosglwyddadwy arall. Ni fydd angen mwyach i ysgolion a lleoliadau neilltuo diwrnodau penodol ar gyfer glanhau dwfn. Fodd bynnag, os oes achos wedi'i gadarnhau yn yr ysgol neu leoliad, bydd glanhau dwfn o'r ardal gyfagos yn parhau i fod o gymorth wrth leihau trosglwyddiad.
- Byddwn yn cyhoeddi 'Fframwaith Penderfyniadau Rheoli Heintiau Covid-19 Lleol' ar ddechrau tymor yr hydref i chi ei ymgorffori yn eich gweithrediadau yn ystod yr wythnosau sy'n dilyn. Yn y cyfamser, mae'r Canllawiau Gweithredol wedi'u diweddaru i adlewyrchu'r pwyntiau hyn a dylid eu defnyddio ar ddechrau tymor yr hydref nes bod y fframwaith wedi'i blethu i drefniadau.

Wrth symud ymlaen bydd y fframwaith yn galluogi ysgolion i deilwra rhai o'r ymyraethau i adlewyrchu lefel y risg a nodwyd yn lleol. Ni fydd disgwyl i ysgolion a lleoliadau wneud y penderfyniadau hyn ar eu pen eu hunain, byddant yn parhau i gael eu cefnogi gan swyddogion iechyd cyhoeddus a'u hawdurdodau lleol i sicrhau bod mesurau'n briodol i'w hamgylchiadau eu hunain. Mae gan pob ardal awdurdod lleol dimau rheoli digwyddiadau datblygedig neu debyg ar waith ar waith i ddod ag arbenigwyr allweddol ynghyd i lywio penderfyniadau.

Sylwch na fydd disgwyl i staff na dysgwyr barhau gyda Phrofion Llif Ochrol dros

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/ymyraethau-covid-19-mewn-ysgolion-lleoliadau-trefniadau-ar-ddechrau-tymor-yr-hydref-2021-i-2022** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

wyliau'r haf. Fodd bynnag, os yw lleoliadau'n parhau ar agor byddem yn annog hyn i barhau. Gall unrhyw un sy'n dymuno parhau i brofi wneud hynny trwy eu sianeli cymunedol lleol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/ymyraethau-covid-19-mewn-ysgolion-lleoliadau-trefniadau-ar-ddechrau-tymor-yr-hydref-2021-i-2022** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Ynghylch y ddogfen hon

Mae’r ddogfen hon yn gopi o’r dudalen we **Ymyraethau COVID-19 mewn ysgolion a lleoliadau: trefniadau ar ddechrau tymor yr hydref 2021 i 2022** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/ymyraethau-covid-19-mewn-ysgolion-lleoliadau-trefniadau-ar-ddechrau-tymor-yr-hydref-2021-i-2022** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/ymyraethau-covid-19-mewn-ysgolion-lleoliadau-trefniadau-ar-ddechrau-tymor-yr-hydref-2021-i-2022** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.